BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

31 Hydref 2011

Sian Phipps
Clerc y Pwyllgor Menter a Busnes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ein cyf: 311011/ALJ/PMB

Annwyl Sian Phipps

**Dylanwadu ar y broses o foderneiddio polisi caffael Ewrop**

Diolch am y cyfle i gynnig sylwadau ar y pwnc uchod. Hoffwn gynnig sylwadau mewn perthynas â dau o'r cwestiynau sydd o ddiddordeb i'r pwyllgor.

Pa mor effeithiol yw Rheoliadau cyfredol y Deyrnas Unedig yng Nghymru, o safbwynt y cyflenwyr/contractwyr ac o safbwynt yr awdurdod pwrcasu?

Mae'r sector gyhoeddus yng Nghymru yn prynu nwyddau a gwasanaethau sydd yn werth tua £4-5 biliwn yn flynyddol, sydd yn cyfateb i tua 30% o gyfanswm yr holl wariant cyhoeddus[1]. Mae'r Bwrdd yn monitro trefniadau caffael cyrff cyhoeddus o safbwynt y Gymraeg. Mae adroddiadau monitro ac arolygu'r Bwrdd yn nodi, lle mae angen prynu nwyddau ar gyfer darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn unig (e.e. arwyddion, gwisgoedd â brand ayyb) bod lefel uchel o gydymffurfiaeth ymysg cyrff sydd â chynlluniau iaith Gymraeg.

Mae llai o gysondeb o ran safon gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir gan drydydd partïon, yn enwedig gwasanaethau wyneb-yn-wyneb neu dros y ffôn. Un o amcanion Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 oedd sicrhau mwy o wasanaethau Cymraeg o safon uchel ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru. O ystyried y cynnydd amlwg mewn darparu gwasanaethau cyhoeddus drwy gontract, bydd llwyddiant y Mesur yn ddibynnol i raddau ar sicrhau bod contractau gwasanaeth cyhoeddus yn rhoi ystyriaeth lawn i anghenion siaradwyr Cymraeg. Er mwyn cyflawni hynny, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg (y Bwrdd) wedi cyhoeddi dogfen gyngor yn ddiweddar, 'Gosod Contractau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Iaith Gymraeg'[2]. Mae'r ddogfen wedi ei anelu yn bennaf at gyrff cyhoeddus sy'n contractio 3ydd partïon i ddarparu gwasanaethau ar eu rhan. Mae'r ddogfen yn trafod perthynas deddfwriaeth ddomestig yn ymwneud â'r Gymraeg gydag egwyddorion cyfraith yr Undeb Ewropeaidd ac yn cynnig cyngor a chymorth ymarferol.

Mae'r Bwrdd yn hyrwyddo'r ddogfen gyngor uchod trwy gynnal cyfres o sesiynau hyfforddiant dros y misoedd nesaf i benaethiaid a rheolwyr caffael yn y sector gyhoeddus. Rydym wedi gweithio'n agos gyda swyddogion o Gwerth Cymru wrth drefnu'r sesiynau, ac yn ddiolchgar iawn i Gwerth Cymru am eu cefnogaeth i'r gwaith hyd yma.

**Hyderwn y bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn awyddus i sicrhau y bydd cynnwys dogfen gyngor y Bwrdd yn cael ei ystyried ochr yn ochr ag unrhyw ddiwygiadau gan yr Uned Ewropeaidd yn ymwneud â chaffael cyhoeddus yng Nghymru.**

[1] Ffigyrau Gwerth Cymru
[2] www.byig-wlb.org.uk

Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Llawr 1af, Yr Hen Argraffdy
Ffordd Santes Helen
Caernarfon LL55 2YD
post@bwrdd-yr-iaith.org.uk
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Welsh Language Board
1st Floor, Yr Hen Argraffdy
St Helen's Road
Caernarfon LL55 2YD
post@welsh-language-board.org.uk
www.welsh-language-board.org.uk

T +44 (0)1286 684 700
Ff +44 (0)1286 684 701
Cadeirydd_Chair **Meri Huws**
Prif Weithredwr_Chief Executive
**Meirion Prys Jones**

Swyddfeydd eraill_Other offices
**Caerdydd_Cardiff, Caerfyrddin_Carmathen**

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Sut ddylai Cyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â chaffael gael eu moderneiddio o safbwynt cyflenwyr/contractwyr ac o safbwynt awdurdodau pwrcasu Cymreig?

Credwn bod cyfle i sicrhau fod rheolau caffael yng Nghymru yn caniatáu hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg wrth roi gwasanaethau allan ar gontract. Gall contractau sicrhau darpariaeth gwasanaeth Cymraeg ond nid yw'n eglur i ba raddau y mae'r rheolau cyfredol yn caniatáu hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg, er enghraifft drwy osod gofynion mewn contractau ar gyflenwyr i hyrwyddo'r Gymraeg yn gymunedol neu gymryd camau rhesymol i gynyddu defnydd o wasanaethau Cymraeg. Byddai sicrhau bod rheolau caffael yn caniatáu hynny yn fodd o gysoni amcanion deddfwriaeth iaith Cymru gyda'r rheolau caffael sydd yn weithredol yng Nghymru. Gall newid o'r fath hefyd sicrhau fod cwmnïau yng Nghymru, sydd â'r gallu i ddarparu gwasanaethau Cymraeg a dealltwriaeth am anghenion siaradwyr Cymraeg, mewn gwell sefyllfa i lwyddo wrth dendro am waith gan sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae pryder wedi ei fynegi nad yw'n bosib cynnal caffaeliadau'n ddwyieithog pan reoleiddir hwy drwy Gyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (OJEU). Mae'n ofynnol cynnal caffaeliadau drwy OJEU yn un o ieithoedd swyddogol UE. Mae'r Bwrdd yn credu ei fod yn bwysig sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gynnal caffaeliadau drwy OJEU, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

**Gofynnwn i'r grŵp gorchwyl a gorffen bwyso ar yr Undeb Ewropeaidd i newid rheolau caffael sy'n weithredol yng Nghymru er mwyn mynd i'r afael â'r problemau uchod.**

Mae croeso i'r grŵp gorchwyl a gorffen gysylltu gyda'r Bwrdd er mwyn cael mwy o fanylion am y ein gwaith yn y maes caffael.

Yn gywir

**Alun Lloyd Jones**
*Swyddog Datblygu*
*Uned Llywodraeth Ganol a Chyfiawnder*

Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Llawr 1af, Yr Hen Argraffdy
Ffordd Santes Helen
Caernarfon LL55 2YD
post@bwrdd-yr-iaith.org.uk
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Welsh Language Board
1st Floor, Yr Hen Argraffdy
St Helen's Road
Caernarfon LL55 2YD
post@welsh-language-board.org.uk
www.welsh-language-board.org.uk

T +44 (0)1286 684 700
Ff +44 (0)1286 684 701
Cadeirydd_Chair Meri Huws
Prif Weithredwr_Chief Executive
Meirion Prys Jones
Swyddfeydd eraill_Other offices
Caerdydd_Cardiff, Caerfyrddin_Carmathen

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE